CYFRES C11

amserbeibl

Gwersi o'r Beibl – Safon 3

Cofiwch roi eich enw a'ch cyfeiriad yma.

Oedran Dyddiad geni

Enw

Cyfeiriad

Enw Arweinydd y Dosbarth

Gwersi Beiblaidd o'r Hen Destament

Cofiwch mai un llythyren yw ch,dd,ff,ng,ll,ph,rh,th

DARLLENWCH
Barnwyr 6: 11-23
7: 12-22

ADNOD ALLWEDDOL
Barnwyr 6: 16

Stori 1 Dynion a ddefnyddiwyd gan Dduw: Gideon

Ydych chi wedi sylwi sut mae pobl yn gwneud yr un camgymeriad dro ar ôl tro? Roedd yr un peth yn wir am yr Israeliaid. Pryd bynnag y bydden nhw'n anghofio am Dduw ac yn dechrau addoli gau dduwiau'r cenhedloedd o'u cwmpas, byddai Duw'n eu cosbi drwy adael i'w gelynion ymosod arnynt. Yna, byddai'r Israeliaid yn edifarhau a byddai Duw yn anfon arweinydd i'w hachub. Byddent yn addoli Duw am gyfnod eto, ac yna'n Ei anghofio wedyn. Y tro hwn, roedd Duw wedi anfon y Midianiaid i'w cosbi. Nawr, dyma angel yn ymddangos!

C **Beth oedd Gideon yn ei wneud pan siaradodd yr angel ag ef?**

1

C **Defnyddiwch y geiriau hyn i gwblhau'r sgwrs:-**

Israel **dy** **distatlaf** **Manasse**

Dos, gyda'r nerth hwn sydd gennyt, a gwared ..... o afael Midian; onid wyf fi yn .... anfon?

Fy nhylwyth i yw'r gwannaf yn ....., a minnau yw'r .....o'm teulu.

4

C **Ysgrifennwch yr Adnod Allweddol sy'n adrodd yr addewid gafodd Gideon gan Dduw.**

2

Roedd Gideon am gael prawf fod y neges hon, yn bendant, yn un oddi wrth Dduw. Paratôdd bryd o fwyd i'w gynnig i'r dieithryn.

C **Edrychwch ar Barnwyr 6:19-21 a thanlinellwch yr ateb cywir i'r cwestiynau canlynol.**

Ble'r oedd yr angel? ar y graig / dan y goeden / mewn pabell

Ble y dywedwyd wrth Gideon am osod y bwyd? Dan y goeden / ar y graig / ar y llawr

Beth ddigwyddodd i'r bwyd? llosgwyd gan dân / bwytawyd y bwyd ganddynt / pydrodd y bwyd

Beth ddigwyddodd i'r angel? Arhosodd gyda Gideon / Bwytaodd bryd o fwyd / Diflannodd

4

Credai Gideon y byddai'n marw, ond dywedodd yr Arglwydd hyn wrtho:

"Heddwch iti; paid ag ofni, ni byddi farw."

C **Rhowch gylch o gwmpas y geiriau hyn yn y CHWILAIR ac yna lluniwch enw o'r llythrennau sy'n weddill.**

__ __ __ __ __ __

H	G	N	F	D
I	E	I	A	I
D	E	Dd	R	A
A	O	Y	W	P
G	T	B	N	Ch
I	I	N	F	O

Y noson honno, dinistriodd Gideon allor ei dad i Baal ac offrymodd aberth i Dduw. Yna, galwodd Gideon ynghyd fyddin fawr ond lleihaodd Duw faint y fyddin honno.

3

C **Ar ôl clywed dau ddyn o Midian yn siarad am freuddwyd, beth ddywedodd Gideon wrth ei fyddin? (Barnwyr 7: 15)**

1

C **Sawl mintai o filwyr oedd gan Gideon?**

Faint o ddynion oedd ym mhob mintai?

Faint o ddynion oedd ganddo i gyd?

3

Rhoddodd Gideon dri pheth i bob milwr. Jar neu biser oedd un eitem.

C **Defnyddiwch lythyren gyntaf pob gwrthrych i ganfod beth oedd y ddau arall.**



__ __ __ __ __ __ **a** ___ ___ ___ ___

2

Rhoddodd Duw'r fuddugoliaeth i Gideon! Roedd angen cryn berswâd ar Gideon y byddai Duw yn wir yn ei ddefnyddio. Dyma enghraifft o ddyn dibwys yn dod yn ddyn o bwys (pwysig) oherwydd bod yr Arglwydd gydag e. Os ydych chi'n Gristion, gall Duw eich defnyddio chi mewn ffordd ryfeddol pan fyddwch yn ymddiried Ynddo ac yn ufuddhau i'w Air.

Enw _____

DARLLENWCH
Barnwyr 16: 6-31

ADNOD ALLWEDDOL
Barnwyr 16: 28

Gwers 2 Dynion a ddefnyddiwyd gan Dduw: Samson

Dywedir hyd heddiw bod person cryf yn debyg i Samson. Daeth Samson yn arweinydd yr Israeliaid ar adeg pan gawsant eu trechu gan y Philistiaid. Roedd Samson yn ddyn mawr cyhyrog a chanddo wallt hir. Nasaread oedd Samson - golygai hyn ei fod yn ddyn oedd wedi'i neilltuo i Dduw. Ei wallt hir oedd un o'r arwyddion ei fod yn Nasaread. Droeon, galluogwyd Samson i ddefnyddio'r nerth a roddwyd iddo gan Dduw i ennill buddugoliaethau dros y Philistiaid. Roeddent hwythau, yn naturiol, yn awyddus i wybod beth a'i gwnâi'n ddyn mor gryf, ac felly dyma nhw'n llwgrwobrwyo Delila, cariad Samson, er mwyn iddi hi ddarganfod cyfrinach ei gryfder ar eu rhan.

C **Rhowch gylch o gwmpas sawl gwaith y gofynnodd Delila yr un cwestiwn i Samson ond mewn geiriau ychydig yn wahanol.**

6 gwaith 12 gwaith 3 gwaith

1

Ysgrifennwch y cwestiwn hwn yn eich geiriau eich hun.



1

C **Rhowch linell drwy'r geiriau ANGHYWIR. Dyma'r cynllwyn:**

1. Byddai Delila yn: clymu Samson / yn ei wneud yn anymwybodol.
2. Byddai Delila wedyn yn: gweiddi, "Mae'r Philistiaid ar dy warthaf, Samson!" / ysgwyd Samson.
3. Roedd y Philistiaid yn aros: mewn ystafell gyfagos / mewn pentref cyfagos.

3

Ond aeth pethau ar chwâl rywsut. Llwyddodd Samson i'w ryddhau ei hun yn gwbl ddidrafferth bob tro. Dechreuodd Delila bwyso arno ddydd ar ôl dydd i ddweud wrthi beth oedd cyfrinach ei gryfder. Yn y diwedd, dywedodd Samson y cyfan wrthi.

Rhowch gylch o gwmpas y llun cywir.

Roedd ei gyfrinach yn ei:

Wallt

Glust

Droed

1

C **Pa adnod sy'n dweud wrthym fod Delila yn sicr ei bod wedi darganfod y gwirionedd y tro hwn?**

Adnod _____

1

Unwaith eto, syrthiodd Samson i gysgu a threfnodd Delila i rywun eillio'i ben yn lân!

C **Ysgrifennwch beth ddywedodd Delila a beth oedd ym meddwl Samson pan ddeffrodd.**



4

Edrychwch ar ddiwedd adnod 20. Doedd e ddim yn sylweddoli fod yr Arglwydd wedi ei adael. Dyna drueni! Roedd Samson yn ddyn rhyfedd. Cawsai ei ddefnyddio gan Dduw ond roedd wedi anghofio fod Duw wedi rhoi iddo'i nerth at ddiben arbennig. Cipiwyd Samson ar amrantiad gan y Philistiaid a'i roi mewn cadwyni a'i arteithio. Ond roedd gan Dduw fwy o waith i Samson.

C Edrychwch ar adnod 22 ac ysgrifennwch beth oedd yn digwydd i Samson yn y carchar.

2

C Edrychwch ar adnodau 23-25. Cyffrowyd y Philistiaid yn fawr pan glywsant hanes cipio Samson. Llanwch y bylchau.

Offrymodd y .... mawr i'w duw. Rhoddodd y bobl ..... i'w duw.

Roedd pawb am i Samson gael ei alw o'r ..... i'w difyrru.

4

Roedd gan Samson un dymuniad olaf. Gofynnodd i'r bachgen oedd yn ei arwain am gael pwyso yn erbyn y colofnau oedd yn cynnal y deml.

C Edrychwch ar yr Adnod Allweddol ac ysgrifennwch beth oedd cais Samson i Dduw.

2

Gan wneud un ymdrech olaf, dymchwelodd Samson y ddwy golofn ganol. Cwympodd yr adeilad a lladdwyd llawer iawn o bobl, a Samson yn eu plith.

C Dychmygwch adroddiad o'r hanes yn y papur newydd drannoeth, ac ysgrifennwch ddiwedd adnod 30 fel pennawd!

Gazzette Gasa

1

Mae hon yn stori drist. Mae'n rhybuddio Cristnogion ynglŷn â'r perygl o gael ein temtio i anghofio Duw, ac am y canlyniadau ofnadwy all ddilyn. Er hynny, ni fydd yr Arglwydd fyth yn ein hanghofio ac mae Ef bob amser yn barod i faddau i ni pan fyddwn yn edifarhau am ein holl bechodau.

Enw .....

DARLLENWCH
Jona 1: 1-17, 3: 1-3

ADNOD ALLWEDDOL

Jona 2: 9

Gwers 3 Dynion a ddefnyddiwyd gan Dduw: Jona

Fyddwch chi'n gwneud yn union fel mae rhywun yn ei ddweud wrthych yn syth - bob tro, neu oes rhaid dweud wrthych yr eildro neu hyd yn oed y trydydd tro? Rhoddodd Duw waith arbennig i Jona, ond anufuddhaodd Jona, a dyna chi helynt ddigwyddodd wedyn!

C Roedd Jona yn broffwyd. Ysgrifennwch Gwir neu Anwir wrth ymyl y brawddegau canlynol:-

Proffwyd yw dyn sy'n dweud wrth bobl beth mae Duw yn ei ddweud. .....

Proffwyd yw dyn sy'n dweud beth sy'n mynd i ddigwydd. .....

Proffwyd yw dyn sy'n bennaeth ar fyddin. .....

3

Ysgrifennwch beth ddywedodd Duw wrth Jona am ei wneud.



1

Pam nad oedd Jona am fynd i Ninefe? Mae'n bosibl ...ei fod yn ofni pobl Ninefe.
nad oedd yn hoffi'r neges y gorchmynnwyd iddo'i phregethu.
y byddai Jona yn edrych yn dipyn o ffŵl pe na bai Duw yn cosbi'r bobl.
Ceisiodd Jona fynd i'r cyfeiriad arall.
Unwaith y cyrhaeddodd fwrdd y llong, anfonodd Duw storm.

C Yn y blychau, ysgrifennwch enwau'r tri lle sy'n cael eu henwi yn adnodau 1-3

Teithiau Jona



2

C Ar y llinell doredig, ysgrifennwch pwy ddywedodd y canlynol (adnodau 6-12)

"Cod, a galw ar dy dduw." .....
"Gadewch inni fwrw coelbren." .....
"O ba genedl wyt ti?" .....
"Hebrëwr wyf fi." .....
"Beth wnawn ni?" .....
"Taflwch fi i'r môr" .....



6

Doedd y morwyr ddim am daflu Jona dros fwrdd y llong, felly dechreuon nhw rwyfo'n galetach, ond ni thawelodd y môr hyd nes iddyn nhw daflu Jona i'r dŵr. Pan ostegodd y storm, gweddïodd y morwyr ar Dduw Jona gan addo y byddent yn Ei wasanaethu. Disgwyliai'r morwyr y byddai Jona'n boddi ond doedd Duw ddim wedi rhoi'r gorau iddo eto. Roedd yn mynd i roi un cyfle arall iddo.

C Yn eich geiriau eich hun, dywedwch sut y diogelwyd Jona gan Dduw.

I

Pan oedd ym mol y pysgodyn, cofiodd Jona mor agos at farw y bu, a'r ffordd roedd yr Arglwydd wedi ei achub.

C Ysgrifennwch frawddeg olaf yr Adnod Allweddol.

I

Rhaid i ninnau hefyd ddeall mai'r Arglwydd yn unig all ein hachub rhag canlyniadau ein pechodau a'n hanufudd-dod.

C I grynhoi stori Jona, chwiliwch am yr atebion i'r cliwiau canlynol yn y Chwilair.

1.Mab Amittai oedd y gŵr hwn.
2.Taflodd y morwyr ef i hwn.
3.Hwyliodd Jona o'r porthladd hwn.
4.Enw'r ddinas yr anfonwyd ef iddi gan Dduw.
5. Talodd Jona am gael teithio ar hon.

B	U	J	N	O
N	A	R	I	A
N	J	O	N	A
Ng	O	M	E	U
O	P	F	F	U
Ll	A	Dd	E	

Defnyddiwch y llythrennau sy'n weddill, gan fynd o'r chwith i'r dde, i ddarganfod rhywbeth am Jona

_ _ _ _ _ _ yn _ _ _ _ _ _ _

6

Atebodd Duw weddi Jona a pharodd i'r pysgodyn mawr chwydu Jona ar dir sych. Unwaith eto, dywedodd Duw wrth Jona am fynd i Ninefe, a'r tro hwn, fe ufuddhaodd Jona! Mae'r Beibl yn sôn am lawer o bethau y mae Duw yn dweud wrthym am eu gwneud. Y pwysicaf o'r rhain yw troi oddi wrth ein pechodau a chredu yn yr Arglwydd Iesu. Rydym yn dysgu oddi wrth Jona mor bwysig yw ufuddhau i Dduw yn hytrach na mynd ein ffordd ein hunain.
Ufuddhaodd Jona o'r diwedd – beth amdanoch chi?

Enw _____

DARLLENWCH
Nehemeia 1: 1-4,
2: 1-8, 4: 6-23

ADNOD ALLWEDDOL
Nehemeia 4: 6

Gwers 4 Dynion a ddefnyddiwyd gan Dduw: Nehemeia

Roedd gan Nehemeia waith pwysig – swydd fyddai ond yn cael ei rhoi i rywun y gellid ymddiried ynddo. Ef oedd trulliad (bwtler gwin) brenin Persia, ac roedd hyn yn golygu bod rhaid iddo brofi'r gwin er mwyn sicrhau nad oedd wedi'i wenwyno, cyn ei gyflwyno i'r brenin. Un diwrnod, daeth ei frawd Hanani â newyddion drwg o Jerwsalem bell. Roedd yr Iddewon yn cael amser caled.

C Llanwch y llythrennau coll – a, e, i, o , u, w, y i ganfod beth ddywedodd e am y ddinas. 2

"D r _ ll _ _ _ d m _ r J _ r _ s _ l _ m _
ll _ s g _ _ d _ _ ph _ rth _ th _ n."

C Pa effaith gafodd hyn ar Nehemeia? Ad-drefnwch y geiriau 4

DdLWYO _ _ _ _ _
LARGADdO _ _ _ _ _ _ _
PYDMDdIROY _ _ _ _ _ _ _ _ _
EDdOÏWDdG _ _ _ _ _ _ _

Roedd Nehemeia yn Iddew a garai Jerwsalem. Gweddïodd am y sefyllfa am bedwar mis. Un diwrnod, sylweddolodd y brenin rywbeth am Nehemeia.

Beth ddywedodd y brenin wrth Nehemeia? (2: 2) 1

Doedd e ddim i fod edrych fel hyn yng ngŵydd y brenin! Synnwyd Nehemeia gan gwestiwn y brenin a dywedodd wrtho am y newyddion a ddaethai o Jerwsalem. Er syndod iddo, gofynnodd y brenin "Beth yw dy ddymuniad?"

C Beth wnaeth Nehemeia nesaf? Rhowch gylch o gwmpas yr atebion cywir. 2

Gweddïodd / wylodd / ymprydiodd ac atebodd / rhedodd i ffwrdd oddi wrth / dywedodd gelwydd wrth y brenin. 2

C I ble'r oedd e eisiau mynd? _____

C Beth oedd e eisiau ei wneud? _____

Dywedodd y brenin y câi Nehemeia ei ryddhau o'i ddyletswyddau am gyfnod er mwyn iddo fynd i Jerwsalem.

CROESAIR

I lawr

1. Gofynnodd Nehemeia am y rhain. (2: 7)
2. Hwn oedd ceidwad y goedwig. (2: 8)
3. Gwraig y brenin. (2: 6)

Ar draws

4. Roedd Nehemeia am ail-godi'r rhain o amgylch y ddinas (2: 13)
5. Roedd angen y rhain ar gyfer y gwaith adeiladu. (2: 8)



5

Cychwynnodd Nehemeia ar y daith hir i Jerwsalem. Pan gyrhaeddodd, cynhaliodd arolwg o'r ddinas. Soniodd am ei gynlluniau wrth y trigolion a chafodd ymateb brwd iawn. Dechreuasant adeiladu. Ond pan oedd y gwaith ar ei hanner, daeth gwrthwynebwyr i darfu ar yr adeiladwyr. (Nehemeia 4:6-23)

C Yn eich geiriau eich hunan, ysgrifennwch beth oedd cynllun eu gelynion, (4:8)

1

GWEDDÏODD Nehemeia a'r gweithwyr a THREFNWYD DYNION I WYLIO! Credai Nehemeia mewn gweddïo'n daer a gweithio'n galed. Roedd hon yn dasg anferthol, yn arbennig pan oedd eu bywydau mewn perygl.

C Gosodwch y geiriau canlynol yn y bylchau cywir i gwblhau'r paragraff.

sêr utgorn muriau hanner ymladd gofio

Anogodd Nehemeia ei weithwyr drwy ddweud wrthynt am ..... am yr Arglwydd. Roedd ..... y dynion yn gweithio tra cariai'r hanner arall waywffyn, tariannau a bwâu. Roedd gan Nehemeia hefyd ddyn fyddai'n seinio ..... pe bai unrhyw helynt. Dywedodd Nehemeia wrth ei weithwyr "Bydd ein Duw yn ..... drosom. Gweithiai'r dynion yn galed o ben bore hyd nes yr ymddangosai ..... y nos. O'r diwedd, ailgodwyd y ..... .

3

Defnyddiwyd Nehemeia gan Dduw oherwydd ei fod yn ŵr gweddïgar ac roedd yn benderfynol o orffen y gwaith a roddwyd iddo gan Dduw, beth bynnag ddigwyddai. Dylai pob un sy'n dilyn yr Arglwydd Iesu wneud popeth, gartref ac yn yr ysgol, gyda'r un penderfyniad i blesio Duw. Darllenwch Colosiaid 3: 23 a 24.

cyfanswm

Marciau
[i'w nodi gan yr athro]

Cyfanswm

Cyfanswm llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120